

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol  
a Deddfwriaethol

Adroddiad ar y Bil Trais ar sail  
Rhywedd, Cam-drin Domestig a  
Thrais Rhywiol (Cymru)

Tachwedd 2014



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.senedd.cynulliadcymru.org](http://www.senedd.cynulliadcymru.org)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8008/8019  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [PwyllgorMCD@cymru.gov.uk](mailto:PwyllgorMCD@cymru.gov.uk)  
Twitter: @SeneddMCD

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014  
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol  
a Deddfwriaethol

**Adroddiad ar y Bil Trais ar sail  
Rhywedd, Cam-drin Domestig a  
Thrais Rhywiol (Cymru)**

Tachwedd 2014



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2011, a'i gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3, ac i ystyried unrhyw faterion eraill yn ymwneud â deddfwriaeth a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**David Melding (Cadeirydd)**

Dirprwy Lywydd  
Ceidwadwyr Cymreig  
Canol De Cymru



**Suzy Davies**

Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin De Cymru



**Alun Davies**

Llafur Cymru  
Blaenau Gwent



**William Powell**

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Simon Thomas**

Plaid Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys

---

<b>Prif gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor .....</b>	<b>5</b>
<b>1. Rhagymadrodd .....</b>	<b>6</b>
Cylch gorchwyl y Pwyllgor.....	6
Cyflwyno'r Bil a'i ystyried.....	6
<b>2. Y cefndir .....</b>	<b>8</b>
Diben y Bil.....	8
<b>3. Cymhwysedd Deddfwriaethol .....</b>	<b>10</b>
Y cefndir .....	10
Tystiolaeth .....	10
Ein barn ni.....	10
<b>4. Sylwadau cyffredinol .....</b>	<b>11</b>
Yr angen am ddeddfwriaeth.....	11
Diffiniadau .....	12
Ein barn ni.....	13
<b>5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth - sylwadau ar bwerau penodol.....</b>	<b>14</b>
Cyflwyniad .....	14
Ein barn ni.....	14
Adran 8 - Dangosyddion cenedlaethol .....	14
Ein barn ni.....	15
Adran 12 - Pŵer i ddyroddi canllawiau statudol .....	15
Ein barn ni.....	16
Adran 17 - Cynghorydd Gweinidogol ar Drais ar sail Rhywedd, Trais Domestig a Thrais Rhywiol .....	17
Ein barn ni.....	18
Adran 22 - Cychwyn .....	19
Ein barn ni.....	19



## **Prif gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor**

---

**Casgliad 1:** Rydym yn cymeradwyo Llywodraeth Cymru o ran y cydbwysedd y mae wedi'i daro rhwng yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i adael ar gyfer is-ddeddfwriaeth. (Tudalen 13)

**Casgliad 2:** Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i fyfyrion ar y diffiniadau yn y Bil; yn ein barn ni, dylai wneud hynny gyda golwg ar sicrhau nad ydyn, fel y maen nhw wedi'u drafftio ar hyn o bryd, yn tanseilio effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 1:** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil fel bod y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei chymhwyso at waith i wneud dangosyddion cenedlaethol o dan adran 8. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 2:** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu canllawiau o dan adran 12. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 3:** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried o ddifrif y pwyntiau a godir gennym ynghylch rôl y Cynghorydd Gweinidogol ac yn mynd i'r afael â hwy yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 4:** Rydym yn argymell y dylai'r weithdrefn negyddol gael ei chymhwyso at orchmynion a wneir yn unol ag adran 22(4)(b). (Tudalen 20)

# 1. Rhagymadrodd

---

## *Cylch gorchwyl y Pwyllgor*

1. Cylch gorchwyl y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (“y Pwyllgor”) yw cyflawni swyddogaethau’r pwyllgor cyfrifol a nodwyd yn Rheol Sefydlog 21 ac ystyried unrhyw faterion cyfansoddiadol neu lywodraethol eraill sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru neu sy’n ymwneud â’r cymhwysedd hwnnw.
2. O fewn y cylch gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar a ddylai’r Cynulliad roi sylw arbennig i’r offerynnau yn unol ag ystod o seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 21.
3. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau ym Miliâu’r Cynulliad ac ym Miliâu Senedd y Deyrnas Unedig sy’n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu’r Cwnsler Cyffredinol wneud is-ddeddfwriaeth, ac yn cyflwyno adroddiadau ar hynny.

## *Cyflwyno’r Bil a’i ystyried*

4. Ar 30 Mehefin 2014 cyflwynodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar y pryd, Lesley Griffiths AC, y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (“y Bil”) a’r Memorandwm Esboniadol sy’n cyd-fynd ag ef.<sup>1</sup>
5. Ar 9 Gorffennaf 2014, ysgrifennodd Lesley Griffiths AC<sup>2</sup> at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Christine Chapman AC (gyda chopi i Gadeirydd y Pwyllgor hwn) gan roi datganiad yn amlinellu’r bwriad polisi o ran rheoliadau ac is-ddeddfwriaeth arall i’w gwneud o dan y Bil a thair dogfen o ganllawiau drafft.

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, y *Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) - Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol*, Mehefin 2014

<sup>2</sup> Llythyr gan Lesley Griffiths AC at Christine Chapman AC, y *Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)* 9 Gorffennaf 2014



6. Yn sgil ad-drefnu'r Cabinet ym mis Medi 2014, cafodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ("y Gweinidog") ei awdurdodi fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gan Brif Weinidog Cymru.
7. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol y Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i gael ei ystyried, gan osod dyddiad cau, sef 14 Tachwedd 2014, i gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.
8. Rhoddom ninnau ystyriaeth i'r Bil ar 29 Medi 2014.

## 2. Y cefndir

---

### *Diben y Bil*

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio:

“Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol (“Awdurdodau Lleol”) a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau a anelir at roi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r Bil ymhellach yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau perthnasol ar sut y dylent arfer eu swyddogaethau er mwyn cyfrannu at roi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer penodi Cynghorydd Gweinidogol.”<sup>3</sup>

10. Mae'n ychwanegu hyn:

“Diben cyffredin y Bil yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bwriedir iddo roi canolbwynt strategol ar y materion hyn a sicrhau bod ystyriaeth gyson yn cael ei rhoi i fecanweithiau atal, amddiffyn a chefnogi wrth ddarparu gwasanaethau.”<sup>4</sup>

11. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn dweud:

“Prif nod polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yw lleihau cyfraddau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Mae'r Bil yn cefnogi'r nod hwn trwy geisio sicrhau bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ymateb yn well i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Prif nodau'r Bil yw gwella'r trefniadau ar gyfer:

- (a) hybu ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, atal hynny ac amddiffyn a chefnogi'r dioddefwyr;
- (b) cryfhau arweinyddiaeth strategol ac atebolrwydd ar gyfer trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a

---

<sup>3</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 2

<sup>4</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 6

(c) gwella cysondeb, ansawdd a dilyniant o ran darparu gwasanaethau yng Nghymru.”<sup>5</sup>

---

<sup>5</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 33

### 3. Cymhwysedd Deddfwriaethol

---

#### *Y cefndir*

12. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod gan y Cynulliad y cymhwysedd i wneud darpariaeth yn y Bil yn rhinwedd paragraffau 5 (Addysg a hyfforddiant), 9 (Iechyd a gwasanaethau iechyd), 12 (Llywodraeth leol) a 15 (Lles cymdeithasol) o Ran 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

#### *Tystiolaeth*

13. Pan ofynnwyd iddo am unrhyw drafodaethau a oedd wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, dywedodd y Gweinidog fod ei swyddogion wedi cynnal trafodaeth dros gyfnod o rai misoedd. Ychwanegodd:

“We have also now had a letter ... from the Secretary of State confirming the issues around the Minister of Crown functions. There are no issues as far as the Wales Office is concerned, and therefore that will enable us to tidy up one aspect of the Bill subsequently.”<sup>6</sup>

14. Ysgrifennodd y Gweinidog aton ni ar 16 Hydref 2014 i gadarnhau bod cydsyniadau Gweinidogion y Goron wedi'u sicrhau oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac felly y byddai yntau'n cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 y Bil i ddileu cyfeiriadau at swyddogaethau Gweinidogion y Goron o adran 4(4).<sup>7</sup>

#### *Ein barn ni*

15. Nodwn nad oes materion wedi'u codi gyda'r Gweinidog ynglŷn â gallu'r Cynulliad i wneud y ddeddfwriaeth hon o dan Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

---

<sup>6</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 29 Medi 2014

<sup>7</sup> Llythyr gan Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, y *Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)*, 16 Hydref 2014

## 4. Sylwadau cyffredinol

---

### *Yr angen am ddeddfwriaeth*

16. Wrth ystyried y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol i wireddu amcanion y Bil, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oedd gan Lywodraeth Cymru ddigon o bwerau eisoes i wireddu'r camau polisi a nodwyd yn y Bil ac felly a oedd angen y Bil.

17. Atebodd y Gweinidog:

“I think that there is a very definite need for the Bill...What the Bill does is provide a consolidated framework for all of our activities related to gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. It also provides for specific duties on local authorities and health boards, and it gives specific powers to Ministers and to the ministerial adviser. I think that these are important duties and powers to have, and I think that they will also, as a consequence, elevate public attention to the problems with which this Bill is seeking to grapple.”<sup>8</sup>

18. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud hyn am y pwerau a'r dyletswyddau penodol yr oedd y Bil yn eu creu:

“... [they] would not otherwise be there in the form that they are drawn. I think that the Bill is necessary, and I think that it will help us to establish a proper framework for the development of both national and local strategies on these issues.”<sup>9</sup>

19. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd pam na fernid bod y pwerau ynglŷn â llesiant cyffredinol a roddwyd i'r awdurdodau lleol yn *Neddf Llywodraeth Leol 2009* yn ddigon i ymdrin â bwriadau'r Bil hwn. Dywedodd y Gweinidog:

“I think that what this really is about is the preparation of local strategies in relation to gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. The wellbeing responsibility is a fairly broadly drawn one. I think we all recognise the need to have a

---

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Ddeddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 11], 29 Medi 2014

<sup>9</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Ddeddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 13], 29 Medi 2014

greater focus on this area of public concern ... What is important is that we ensure that we have a real focus on these issues, and this gives us the power to compel that to happen.”<sup>10</sup>

### ***Diffiniadau***

20. Mae adran 21 yn darparu diffiniadau o dermau sy'n cael eu defnyddio yn y Bil. Ceisiodd y Pwyllgor ddeall pam roedd rhai o'r diffiniadau yn y Bil wedi'u geirio'n eang (er enghraifft, 'trais ar sail rhywedd'). Dywedodd y Gweinidog:

“... we would not want the local strategies—or, indeed, the national strategy—to be circumscribed by too narrow a definition in these areas. I think that what we have put down in the Bill gives clarity to the organisations with which we will be working, and, I think, gives clarity to us. I think that they are, broadly speaking, definitions that would be understood more widely in the community.”<sup>11</sup>

21. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud hyn:

“I think that these are issues ... that we can explore as the Bill makes progress. If a case is made to me to suggest that the definitions are too broad, I would certainly want to hear that.”<sup>12</sup>

22. Holwyd y Gweinidog yn benodol a fyddai'r diffiniad o drais ar sail rhywedd yn cynnwys gwryw yn ymladd â gwryw a chymhwyso'r diffiniad o gam-drin ariannol at blant. Dywedodd y Gweinidog:

“I am happy to reflect on that. I suppose that there are broad policy questions that we will need to consider as we take the Bill through, in relation to whether we have sufficiently reflected in the Bill issues to do with coercive behaviour, for example. Some of these definitions are actually very difficult to draw, as I think you will appreciate.”<sup>13</sup>

---

<sup>10</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 79], 29 Medi 2014

<sup>11</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 20], 29 Medi 2014

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 29 Medi 2014

<sup>13</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 34], 29 Medi 2014

### ***Ein barn ni***

23. Un o'r materion yr ydyn ni'n ceisio craffu arno wrth ystyried biliau yw'r cydbwysedd rhwng yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sy'n cael ei adael ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

24. Nodwn fod y Bil yn cynnwys un pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ac felly rydyn ni'n croesawu pwyslais y Bil ar osod y manylion a'r amcanion polisi ar ei wyneb.

**Casgliad 1: rydym yn cymeradwyo Llywodraeth Cymru o ran y cydbwysedd y mae wedi'i daro rhwng yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i adael ar gyfer is-ddeddfwriaeth.**

25. Ceisiodd y Pwyllgor ddeall pam mae diffiniadau'r Bil wedi'u geirio'n fras, o gofio y gallai diffiniadau bras ddylanwadu ar effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth ac yn enwedig felly danseilio'i amcanion. Nodwn farn y Gweinidog.

**Casgliad 2: rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i fyfyrion ar y diffiniadau yn y Bil; yn ein barn ni, dylai wneud hynny gyda golwg ar sicrhau nad ydyn, fel y maen nhw wedi'u drafftio ar hyn o bryd, yn tanseilio effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth.**

## 5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth - sylwadau ar bwerau penodol

---

### *Cyflwyniad*

26. Mae i'r Bil 23 o adrannau ac mae'n cynnwys pump o bwerau: un pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, dau bŵer i roi cyfarwyddiadau, un pŵer i ddyroddi canllawiau ac un arall i wneud gorchmynion cychwyn. Crynhoir y rhain yn Rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae rhagor o wybodaeth am y darpariaethau ar gael yn natganiad Llywodraeth Cymru o'r bwriad polisi ynglŷn â'r rheoliadau.<sup>14</sup>

### *Ein barn ni*

27. Rydym yn fodlon at ei gilydd ar y pwerau dirprwyedig a geir yn y Bil, yn amodol ar ein safbwyntiau ni isod, sydd hefyd yn ymdrin â materion eraill sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

### *Adran 8 – Dangosyddion cenedlaethol*

28. Mae adran 8 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol a all gael eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at wireddu diben y Bil.<sup>15</sup> Er nad oes yna weithdrefn yn gymwys i'r dangosyddion, mae adran 8(1)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi gerbron y Cynulliad.

29. Pan ofynnwyd iddo a oedd yn rhagweld y byddai'r Cynulliad yn rhan o lunio'r dangosyddion hyn, dywedodd y Gweinidog:

“There is already a formal process under local government legislation for laying Orders in respect of national indicators, and I think that that is the procedure that we will follow. However, there are a number of places through which the Assembly can make representations on national indicators... Clearly, national indicators may change from time to time in the light of experience. Finally, of course, the Minister is always under scrutiny, either before a committee or in the Chamber.”<sup>16</sup>

---

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, *Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill – Policy intent of regulations and other subordinate legislation made under the Bill*, Gorffennaf 2014

<sup>15</sup> Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol, paragraff 16

<sup>16</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 39], 29 Medi 2014



30. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog egluro a gâi'r Cynulliad edrych ar y dangosyddion, er enghraifft bob blwyddyn, i adolygu'r gwaith i'w cyflawni ac effaith y ddeddfwriaeth. Dywedodd y Gweinidog:

“Well, I think that there will be ample opportunity. Clearly, in the drawing up of a national strategy, we would want to consult on that. There would be an opportunity there for Assembly committees to scrutinise that, and there would be opportunity for debates on that and, clearly, if we produce an annual report, there will be an opportunity to debate that, as well. I think that I might want to find Government time to discuss an annual report in this area, because part of the important leadership role of Government is to raise awareness of these issues.”<sup>17</sup>

### ***Ein barn ni***

31. Fel rhan o'r broses o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei gweithredoedd, rydym yn credu y dylai fod gan y Cynulliad ran wrth graffu ar ei gwaith a llais yn y pen draw yn y dangosyddion cenedlaethol a ddewisir yn unol ag adran 8. Yn ein barn ni, byddai dull felly yn cyd-fynd â'r dull a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru ac a ategwyd gan y Cynulliad o ran *Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009*; mae hwnnw'n darparu i ddangosyddion perfformiad y llywodraeth gael eu pennu drwy orchymyn, a all gael ei ddiddymu gan y Cynulliad.

32. O gofio ei bod yn debyg mae'r dangosyddion fydd y modd ar gyfer mesur cynnydd tuag at wireddu diben y Bil, rydym yn credu y dylen nhw gael eu hategu gan y Cynulliad.

**Argymhelliad 1: rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil fel bod y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei chymhwyso at waith i wneud dangosyddion cenedlaethol o dan adran 8.**

### ***Adran 12 - Pŵer i ddyroddi canllawiau statudol***

33. Mae adran 12 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, ond nid yw'n eu gorfodi, i ddyroddi canllawiau i “awdurdod perthnasol” ar sut y dylai'r awdurdod gyfrannu at ddiben y Bil. Caniateir i'r canllawiau roi sylw i'r canlynol, ymhlith pethau eraill:

---

<sup>17</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 42], 29 Medi 2014

- y camau y caiff awdurdod eu cymryd i gynyddu ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- yr amgylchiadau pan fo'n briodol i staff yr awdurdod perthnasol holi person a yw'n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig neu drais rhywiol, neu mewn perygl o'u dioddef; a'r camau y mae'n briodol eu cymryd ('gofyn a gweithredu');
- hyfforddiant i staff yr awdurdod perthnasol;
- rhannu gwybodaeth gan awdurdodau perthnasol (neu yn eu mysg); a
- chydweithredu rhwng awdurdodau perthnasol neu rhwng awdurdodau perthnasol a chyrff eraill.

34. Roedd llythyr Llywodraeth Cymru ar 9 Gorffennaf yn cynnwys tri darn o ganllawiau drafft yr oedd yn ystyried eu cyhoeddi o dan y pŵer yn adran 12.

35. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog ddweud pam nad oedd y ddarpariaeth yn adran 12 yn ei gwneud yn ofynnol yn bendant i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r awdurdodau perthnasol.

36. Atebodd y Gweinidog:

"I think that this is normal legal terminology that we tend to use in clauses such as this, is it not? It is clear that we will be issuing statutory guidance to relevant authorities. That was one of the purposes of having the Bill, but I think, in general terms, we have always used the term, 'may'."<sup>18</sup>

37. Mewn ymateb i gwestiwn am ganlyniadau peidio â chyflwyno'r canllawiau pan fo gennych y cyfle i wneud hynny, dywedodd y Gweinidog nad oedd ganddo fwriad i beidio â chyflwyno'r canllawiau.<sup>19</sup>

### ***Ein barn ni***

38. Nodwn fwriad y Gweinidog, ond rydym yn credu y dylai pob Gweinidog yn y dyfodol ddod o dan ddyletswydd i ddarparu'r canllawiau.

<sup>18</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 46], 29 Medi 2014

<sup>19</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 74], 29 Medi 2014

**Argymhelliad 2: rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu canllawiau o dan adran 12.**

***Adran 17 – Cynghorydd Gweinidogol ar Drais ar sail Rhywedd, Trais Domestig a Thrais Rhywiol***

39. Mae adran 17 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi Cynghorydd Gweinidogol ar drais ar sail rhywedd, trais domestig a thrais rhywiol yn unol â thelerau a bennir gan y Gweinidogion.<sup>20</sup>

40. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai'r rôl i Gy nghorydd Gweinidogol fydd yr un gyntaf o'i math yn y Deyrnas Unedig.<sup>21</sup>

41. Ymhelaethodd y Gweinidog ar y rhesymeg y tu ôl i'r rôl hon:

“What we are looking for here is someone with experience in the field to provide a real focus on leading on the national and local strategies and providing a context for those local strategies to be drawn up, the power to intervene when necessary—when things are not being carried out in the way that we would wish—and someone who is seen to be independent, to a degree, of Government, which is important too.”<sup>22</sup>

42. Yn 2012, comisiynodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen i gynhyrchu adroddiad er mwyn bwydo cynnwys y Bil, rhoi'r Bil ar waith a gorfodi'r Bil. Argymhellodd yr adroddiad<sup>23</sup> y dylid creu comisiynydd annibynnol ac felly gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pam yr oedd wedi penderfynu yn erbyn y dull hwnnw. Dywedodd:

“Well, we have a number of roles in Wales that are identified under the title of commissioner—the Children’s Commissioner for Wales and the Commissioner for Older People in Wales are two good examples. I think that they are broad roles in terms

---

<sup>20</sup> Memorandwm Esboniadol – Atodiad 1 - Nodiadau Esboniadol, paragraff 20

<sup>21</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 34

<sup>22</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 83], 29 Medi 2014

<sup>23</sup> Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, *Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod a Chamdrin Domestig (Cymru)' arfaethedig Llywodraeth Cymru: Argymhellion o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen*, 24 Awst 2012

of their definition, and what we want is for the ministerial adviser to be a very focused role. The White Paper, as I referred to earlier, did raise this issue in the context of having a ministerial adviser, and there was broad support for that position.”<sup>24</sup>

43. Ychwanegodd y canlynol:

“It is important to understand that the ministerial adviser, under this Bill, will have very significant powers to compel, for example, local authorities or other public bodies to provide information on how they are carrying out their work in this area. I think that that is a power that is an important one. I think it is a power that will be unprecedented, probably, within this field within the UK.”<sup>25</sup>

44. Wrth esbonio pam y câi’r pwerau eu breinio yn y Cynghorydd ac nid yng Ngweinidogion Cymru, dywedodd y Gweinidog:

“Well, there are powers that the Ministers will have under this Bill. So, I do not see that there is any problem for us in that we will have powers that can run alongside. However, I think that it is valuable that the ministerial adviser has specific powers that will indicate that this strategy is being taken forward in a way that people outside can have confidence in that it is not simply because the Ministers themselves are requesting this information.”<sup>26</sup>

45. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y câi’r penodiad ei wneud o dan egwyddorion Nolan.<sup>27</sup>

### ***Ein barn ni***

46. Nodwn farn y Gweinidog.

47. Serch hynny, rydyn ni o’r farn bod swyddi statudol o’r natur a nodwyd gan y gweinidog yn cario cryn bwysau. Yn ein barn ni, dylai

---

<sup>24</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraffau 85], 29 Medi 2014

<sup>25</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraffau 87], 29 Medi 2014

<sup>26</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 89], 29 Medi 2014

<sup>27</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 98], 29 Medi 2014

swydd o'r fath ddod o dan broses benodi statudol a chyfnod penodi penodol statudol ac y byddai'n cyfateb yn well i gomisiynydd annibynnol neu swydd debyg. Serch hynny, dydyn ni ddim wedi bod mewn sefyllfa i roi prawf manwl ar hyn.

48. Eto i gyd, fe hoffem annog y Gweinidog i fyfrio ai Cynghorydd Gweinidogol, fel y'i nodir yn y Bil, yw'r ffordd fwyaf priodol i ddisgrifio rôl sy'n cario pwerau arwyddocaol, yn arbennig felly yng ngoleuni argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen y cyfeirir ato ym mharagraff 42 uchod.

**Argymhelliad 3: rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn ystyried o ddifrif y pwyntiau a godir gennym ynghylch rôl y Cynghorydd Gweinidogol ac yn mynd i'r afael â hwy yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil.**

### ***Adran 22 - Cychwyn***

49. Mae adran 22 yn cynnwys pŵer i gychwyn darpariaethau'r Bil drwy orchymyn, na fyddai'r un weithdrefn yn gymwys iddo.

50. Dywedodd y Gweinidog:

"... in respect of commencement, we are obviously operating within the terms of the letter that the First Minister has sent to this committee in the past on commencement issues. What we are specifically speaking about here are temporary provisions that may need to apply-. Let me give you an example. As you understand, we are going through a process of local government reform at the present time. Now, it could be that, during the passage of this Bill, we see a move towards voluntary mergers; it may be that we have to stagger the implementation or make changes in implementation. So, it is important for us to get this right as we are coping with a potentially changing landscape."<sup>28</sup>

### ***Ein barn ni***

51. Nodwn farn y Gweinidog. Er hynny, rydym yn dal o'r farn y dylai gorchmynion cychwyn sy'n cychwyn darpariaethau heblaw drwy enwi

---

<sup>28</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 100], 29 Medi 2014

dyddiad cychwyn (drwy wneud darpariaeth ddarfodol neu drosiannol)  
fod yn destun gwaith craffu o dan y weithdrefn negyddol.

**Argymhelliad 4: rydym yn argymhell y dylai'r weithdrefn negyddol  
gael ei chymhwyso at orchmynion a wneir yn unol ag adran  
22(4)(b).**